Mae'r materion canlynol wedi arwain at y ffurflen flynyddol yn cael ei gwneud yn amodol. Maent yn dynodi gwendid yng ngweithdrefnau'r Cyngor ac mae angen i'r Cyngor weithredu ar unwaith mewn perthynas â hwy.

Y Broses Gyllidebu

Beth yw'r mater?

Er bod praesept wedi'i osod erbyn y dyddiad dyledus ni wnaeth y cyngor baratoi cyllideb ddigonol i gefnogi a darparu tystiolaeth ar gyfer y cais am braesept.

Pam mae'r mater wedi cael ei godi

Mae'r cyngor wedi dangos potensial o ddiffyg rheolaeth ariannol dros wario a derbyn arian cyhoeddus ac roedd yn agored i'r risg o orwario. Mae'n bosib bod y cyngor hefyd wedi mynd yn groes i Ran 1, Pennod IV, Para 50(1) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 sy'n datgan bod rhaid i bob awdurdod 'wneud y cyfrifiadau gofynnol' dan y 'gofyniad cyfrifo cyllideb'.

Beth yw'n hargymhelliad i chi?

Rhaid i'r cyngor sicrhau yn y dyfodol bod cyllideb ddigonol yn cael ei pharatoi i gefnogi ei broses gwneud penderfyniadau ac i helpu'r rheolaeth ariannol yn ystod y flwyddyn ariannol. Rhaid i'r Cyngor adolygu'r gyllideb yn rheolaidd, a rhaid sicrhau fod yr adolygiad hwn o'r gyllideb yn erbyn yr incwm a'r gwariant gwirioneddol yn cael ei gofnodi. Dylai'r cyngor fonitro'r gyllideb o leiaf bob chwarter, neu'n amlach na hynny os oes angen. Bydd faint o fonitro cyllideb sy'n digwydd yn ystod y flwyddyn yn dibynnu ar faint y Cyngor ac ar gymhlethdod ei gyllid.

Mae modd cael arweiniad pellach ar y mater hwn o'r ffynhonnell/ffynonellau canlyn

Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer Cynghorau Lleol yng Nghymru - Canllawiau i Ymarferwyr, Un Llais Cymru/CCCLl